# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**9.30 y.b., DYDD GWENER, 17EG MEHEFIN, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - i gael mynediad i'r cyfarfod cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490 / annession@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd DyddiadAmhenodol)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan - Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Llinos Medi Huws - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubury - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Ian Roberts - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Dyfrig L Siencyn - Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

I'w Gadarnhau

Prif Swyddogion

Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd – Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Iwan Davies - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft - Cyngor Wrecsam
Emyr Williams – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD 2022/23

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2022/23.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD 2022/23

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2022/23.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL 5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 14 ac y 28 Ionawr 2022 fel rhai cywir.

## 7. MATERION CYFANSODDIADOL 11 - 15

Dafydd L Edwards, Swyddog Arweiniol Prosiect y CBC ac Iwan Evans, Swyddog Monitro'r CBC i gyflwyno adroddiad ar faterion cyfansoddiadol y Cyd-Bwyllgor.

## 8. DATGANIAD POLISI TÂL 2022/23 16 - 21

Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd i gyflwyno datganiad polisi tâl y Cyd-Bwyllgor.

## 9. STRWYTHUR Y SEFYDLIAD A STAFFIO 22 - 26

Dafydd L Edwards, Swyddog Arweiniol Prosiect y CBC i gyflwyno adroddiad sydd yn ymdrin ag (ail)benodi swyddogion statudol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC), darparu gwasanaethau cefnogol craidd a'r trefniadau i gyflogi staff i ymgymryd â'r dyletswyddau Cynllunio a Thrafnidiaeth.

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**
**14/01/2022**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Dir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Mon), Charlie McCoubury (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Prichard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd)

Aelod Eryri: Y Cynghorydd Annwen Hughes (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

Prif Swyddogion – Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Mon), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) ac Emyr Williams (Parc Cenedlaethol Eryri).

Swyddogion yn bresennol –Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi A Morgan (Pennaeth Cyllid), Dafydd L. Edwards (Swyddog Arweiniol Prosiect y Cyd-Bwyllgor), ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Penderfynwyd ethol y Cyng. Dyfrig Siencyn yn Gadeirydd y Cyd-Bwyllgor.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Penderfynwyd ethol y Cyng. Mark Pritchard yn Is-Gadeirydd y Cyd-Bwyllgor.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Wyn Ellis Jones o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a nodwyd fod y Cyng. Anwen Hughes yn bresennol i ddirprwyo ar ei ran.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd ddatganiad o fuddiant personol gan Iwan Evans, Dewi A Morgan a Dafydd Gibbard ar gyfer Eitem 6 : Penodi Swyddogion Statudol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. PENODI SWYDDOGION STATUDOL Y CYD-BWYLLGOR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd L Edwards (Swyddog Arweiniol y Prosiect).

**PENDERFYNIAD**

Penodwyd y Swyddogion Statudol canlynol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, yn weithredol o 14 Ionawr 2022 o leiaf hyd nes y bydd y trefniadau'n cael eu adolygu ym mis Mehefin 2022:

a) Prif Weithredwr – Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd)
b) Prif Swyddog Cyllid ('Swyddog Adran 151') – Dewi Morgan (Cyngor Gwynedd)
c) Swyddog Monitro a Swyddog Priodol – Iwan Evans (Cyngor Gwynedd).

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn sefydlu Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ac o ganlyniad i hyn mynegwyd fod angen i'r Cyd-Bwyllgor wneud trefniadau priodol yn y cyfarfod cyntaf. Eglurwyd ymysg y trefniadau priodol cyntaf fod rhaid i'r Cyd-Bwyllgor benodi ei Swyddogion Statudol.

Eglurwyd fod Rheoliadau Cyd-Bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (rhif 2) (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i benodi tri swyddog statudol yn cynnwys Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro. Mynegwyd fod Rheoliadau Sefydlu yn caniatáu hyblygrwydd sut y gall y Cyd-Bwyllgor gyflogi staff, hynny yw gall gael eu cyflogi yn uniongyrchol neu drwy drefniadau gydag awdurdodau cyfansoddiadol. Nodwyd fod Cyngor Gwynedd eisoes yn darparu Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sydd â swyddogaethau gallai drosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ystod 2022/23. Yn ogystal ategwyd fod Cyngor Gwynedd eisoes yn darparu Swyddog Arweiniol Prosiect y Cyd-Bwyllgor.

Pwysleisiwyd er mwyn i'r Cyd-Bwyllgor symud ymlaen argymhellwyd y dylai swyddogion statudol gael eu darparu gan Gyngor Gwynedd am y tro, tra fod y Cyd-Bwyllgor yn cael ei sefydlu, gan nodi y gellir adolygu'r trefniadau dros dro a cyflwyno adroddiad pellach ar yr opsiynau posib ar gyfer penodi'r swyddogaethau ar sail parhaol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i Cyngor Gwynedd am gymryd y rôl ar ran y Rhanbarth.

**7. RHEOLAU SEFYDLOG A CHYFANSODDIAD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Evans (Swyddog Monitro).

**PENDERFYNWYD**

1. Mabwysiadwyd Rheolau Sefydlog Cychwynnol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor Corfforedig a derbyn y cyfeiriad ynglŷn a sefydlu Cyfansoddiad.
2. Dirprwywyd hawl i'r Swyddog Monitro i wneud newidiadau golygyddol i'r Rheoliadau Sefydlog ar gyfer eu cyhoeddi gan nodi'r angen i ail ymweld â'r Rheolau Sefydlog unwaith y bydd canllawiau'r Llywodraeth wedi'i cadarnhau.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Rheoliadau Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor wneud Rheoliadau Sefydlog er mwyn rheoleiddio ei weithrediadau a busnes. Gan gynnwys Rheoliadau sefydlu'r Cyd-Bwyllgor ar y 1af Ebrill 2021, nodwyd eisoes fod tri set o reoliadau llywodraethu wedi dod i rym. Ychwanegwyd fod 2 set o Reoliadau Cyffredinol wedi mabwysiadu gyda ymgynghoriad ar Reoliadau (3ydd) ychwanegol wedi cau cyn y Nadolig. Mynegwyd fod disgwyliad y bydd y Rheoliadau ychwanegol yn dod i rym yn y Gwanwyn. Eglurwyd felly fod sefydlu trefniadau cyfansoddiadau yn gorfod ymateb a datblygu gyda cefndir o sefyllfa gyfreithiol sydd yn parhau i esblygu.

Tywyswyd drwy'r Rheolau Sefydlog gan amlygu fod yr Aelodaeth yn cynnwys 6 Arweinydd Cynghorau Cyfansoddiadau sydd â hawl gweithredu holl swyddogaethau, Cynrychiolydd o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sydd â hawl gweithredu ar faterion sy'n ymwneud â'r Swyddogaeth Cynllun Datblygu Strategol yn unig, ynghyd ag Aelodau Cyfetholedig a benodir gan y Cyd-Bwyllgor fydd â hawl gweithredu yn unol â'r gytundeb penodi. Eglurwyd o ran y cyfarfodydd y bydd y cyfarfodydd yn agored a bydd modd i'r wasg a'r cyhoedd gael mynediad, ychwanegwyd y bydd angen creu calendr cyfarfodydd. Amlygwyd fod angen 5 aelod fod yn bresennol er mwyn cael cworwm ac y bydd rhaid i'r aelodau ddynodi eilydd.

Eglurwyd o ran y drefn pleidleisio y bydd yn dilyn trefn mwyafrif syml, ond y bydd angen pleidlais unfrydol ar gyfer pennu cyfraniadau at y gyllideb a newid y trefniadau pleidleisio. Nodwyd yn ogystal na fydd pleidlais fwrw oni bai ar faterion Cynllun Datblygu Strategol. Eglurwyd y bydd datganiadau o'r penderfyniadau yn cael ei cyhoeddi ond na fyddent yn ddarostyngedig i alw i mewn. Ond nodwyd y disgwylir rheoliadau ar y trefniadau trosolwg a chraffu gael eu cyhoeddi a olygai y gallai hyn newid.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd sut y bydd y Cyd-Bwyllgor yn creu Is-Bwyllgorau. Nodwyd y bydd yn benderfyniad y Cyd-Bwyllgor ac y bydd angen creu Cylch Gorchwyl i'r Is-Bwyllgor ynghyd a hawliau dirprwyedig.
- Mynegwyd fod cael trefn craffu yn holl bwysig ac fod angen cael trefniadau cadarn a mecanwaith er mwyn datblygu. Pwysleisiwyd y bydd y Rheolau Sefydlog yn parhau i esblygu dros amser.
- Pwysleisiwyd mai Rheolau Sefydlog cychwynnol a gyflwynwyd i'r Cyd-Bwyllgor ac eglurwyd y byddant yn dod yn ôl i'r Cyd-Bwyllgor am ystyriaeth bellach yn dilyn unrhyw addasiadau ac unrhyw ddyblygiadau unwaith y bydd canllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru.

## 8. BLAEN RAGLEN WAITH Y CYD-BWYLLGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd L Edward (Swyddog Arweiniol y Prosiect).

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd Blaen Raglen Waith y Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Flaen Raglen yn rybudd o beth fydd yn cael ei drafod dros y misoedd nesaf. Nodwyd y bydd angen i'r cyfarfod nesaf, yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, gymeradwyo ei gyllideb am 2022/23 erbyn 31 Ionawr 2022. Eglurwyd fod y nifer o eitemau i'w trafod dros y misoedd nesaf ac y bydd addasiadau i'r Flaen Raglen wrth i amser fynd yn ei blaen.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 1:50pm.

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**
**28/01/2022**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Dir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Mon), Charlie McCoubury (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Prichard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd)

Aelod Eryri: Y Cynghorydd Wyn Ellis Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

Prif Swyddogion – Marc Jones (Cyngor Sir Ynys Mon), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Richard Weigh (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol –Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi A Morgan (Pennaeth Cyllid), Dafydd L. Edwards (Swyddog Arweiniol Prosiect y Cyd-Bwyllgor), ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gan egluro fod Richard Weigh yn dirprwyo. Nodwyd fod Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Mon) yn ymddiheuro ond fod Marc Jones yn dirprwyo ar ei rhan, a derbyniwyd ymddiheuriad gan Emyr Williams (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) .

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. CYLLIDEB 2022/23 CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD AR ARDOLL AR AWDURDODAU CYFANSODDIADOL.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd L Edwards (Swyddog Arweiniol Prosiect y Cyd-Bwyllgor).

**PENDERFYNIAD**

Cadarnhawyd Cyllideb o ddim gwariant ar gyfer 2021/22 ac felly ni chodir ardoll.

Cymeradwywyd Cyllideb 2022/23 ar gyfer Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd fel y'i cyflwynwyd yn yr atodiad, gyda chyfansymiau:

- Cynllunio Strategol £87,950 (pleidlais 1)

- Swyddogaethau Eraill y CBC yn cynnwys Trafnidiaeth £274,310 (pleidlais 2)

Cymeradwywyd yr ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol, wedi'i ddosrannu ar sail y boblogaeth perthnasol, gyda'r symiau fel y'i cyflwynir isod:

- Cynllunio Strategol (pleidlais 3)
- Swyddogaethau eraill (pleidlais 4)

| | Cynllunio Strategol £ | Swyddogaethau eraill £ | Cyfanswm Ardoll £ |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (14,270) | (46,220) | (60,490) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (12,030) | (37,530) | (49,560) |
| Cyngor Sir y Fflint | (19,700) | (61,450) | (81,150) |
| Cyngor Gwynedd | (13,090) | (48,910) | (62,000) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (8,750) | (27,290) | (36,040) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (16,970) | (52,910) | (69,880) |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | (3,140) | | (3,140) |
| **Cyfanswm Ardoll** | **(87,950)** | **(274,310)** | **(362,260)** |

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn ofyniad statudol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig gymeradwyo ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol gyntaf, sef 2022/23 erbyn 31 Ionawr 2022. Nodwyd fod angen penderfyniad cynnar oherwydd yr angen i roi ardoll ar gynghorau sir cyn i'r rheiny osod cyllidebau eu hunain.

Mynegwyd fod y gyllideb wedi ei seilio ar y 'swyddogaethau cychwynnol' y Cyd-Bwyllgor ac amlygwyd y ddau gynllun statudol. Eglurwyd fod angen i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gael ei gwblhau erbyn Gorffennaf 2023, tra fod yr ail gynllun statudol, Cynllun Datblygu Strategol, gydag amserlen hwy. Nodwyd fod y gyllideb yn adlewyrchu'r amserlen hwn.

Ychwanegwyd fod y gyllideb am eleni yn parhau i gadw cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar wahân i'r Cyd-Bwyllgor. Eglurwyd fod hyn er fod y 6 awdurdod wedi cytuno mewn egwyddor i drosglwyddo'r Bwrdd Uchelgais i'r Cyd-Bwyllgor ymhen amser ond fod angen cytuno ar gytundeb llywodraethu pendant.

Tynnwyd sylw at benawdau'r gyllideb gan nodi o dan gyllideb gweithwyr ei fod wedi ei seilio ar isafswm staff er mwyn cynhyrchu'r gwaith ar gyfer y cynlluniau. Eglurwyd y bydd angen mwy o swyddogion yn y pendraw ond fod isafswm am gael ei cyllido yn y cyfnod byr. Mynegwyd o ran y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol fod swm o arian yno ar gyfer ymgynghorwyr. Pwysleisiwyd y bydd angen penodi ymgynghorwyr i symud y gwaith ymlaen os am lwyddo i gynhyrchu'r gwaith erbyn Gorffennaf 2023.

Nodwyd fod y gyllideb wedi ei greu ar y cyd gyda Trysoryddion yr holl awdurdodau ac wedi ei nodi ar sail isafswm ymarferol, a gobeithir na fydd angen cyflwyno cyllideb atodol eleni.

Ychwanegwyd fod y cyfraniadau o'r holl awdurdodau wedi ei gosod ar sail garn o'r boblogaeth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd dealltwriaeth i'r penderfyniad a ofynnwyd amdano i'r eitem hon gan holi os oes gan yr aelodau hawl dirprwyedig gan eu Awdurdodau i wneud penderfyniad am y gyllideb. Eglurwyd eu bod, fel Arweinyddion eu hawdurdodau, wedi eu penodi fel Aelodau i'r Cyd-Bwyllgor ac o ganlyniad fod ganddynt hawl statudol i weithredu fel aelodau llawn gyda hawliau gweithredol o'r Cyd-Bwyllgor ac nid yn ddirprwyedig o'i Awdurdodau.
- Holwyd, os yn cytuno â'r gyllideb am eleni, a fyddai hynny yn gosod cynsail i'r blynyddoedd i ddod. Eglurwyd y bydd angen gosod cyllideb yn flynyddol ac y bydd disgresiwn blynyddol am faint y gyllideb ynghyd a sut y bydd yn cael ei ddyrannu.
- Nodwyd y bydd Cynghorwyr yr awdurdodau yn anhapus nad ydynt wedi cael y cyfle i drafod y gyllideb ac fod angen trefniadau i'w drafod i'r dyfodol. Mynegwyd dealltwriaeth fod angen gwneud y penderfyniad heddiw, ond fod angen cofio am yr aelodau o fewn awdurdodau sydd yn teimlo fod hawl democrataidd yn bellach oddi wrthynt.
- Eglurwyd os na fydd penderfyniad yma yn cael ei wneud heddiw bydd Llywodraeth Cymru yn gosod y gyllideb ar ran y Cyd-Bwyllgor.
- Amlygwyd yr angen i weithio ar llywodraethant y Cyd-Bwyllgor gan bwysleisio yr angen i drafod a ffurfioli'r drefn craffu er mwyn diogelu aelodau lleol.
- Mynegwyd fod y Cyd-Bwyllgor yn gorff anaeddfed ar hyn o bryd ac fod angen gwneud y gwaith i osod trefniadau i sicrhau trafodaethau ystyrlon am gyllideb blynyddoedd dilynol.
- Holwyd os oes modd pasio y penderfyniad yn amodol ar drafodaeth gyda'r awdurdodau lleol heddiw. Eglurwyd nad oedd modd penderfynu yn amodol. Nodwyd y bydd modd gwneud y penderfyniad ac yna gofyn i'r Arweinyddion rannu'r wybodaeth â'u haelodau lleol er budd tryloywder am gyllideb y Cyd-Bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 3pm a daeth i ben am 3:50pm.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd** |
| DYDDIAD: | **17 Mehefin 2022** |
| PWNC: | **Materion Cyfansoddiadol:<br>Sefydlu Strwythur Is-bwyllgorau, ac ati.** |
| SWYDDOGION CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards, Swyddog Arweiniol Prosiect y CBC ac Iwan Evans, Swyddog Monitro'r CBC** |

---


**PENDERFYNIADAU A GEISIR:**

1. Sefydlu Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ac Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a chymeradwyo'r aelodaeth a'r hawliau pleidleisio a argymhellir, fel sydd wedi'i amlinellu yn adran 2 isod.
2. Gofyn am adroddiad pellach ar Gylch Gorchwyl a Rheolau Sefydlog yr Is-bwyllgorau i gyfarfod nesa'r Cyd-bwyllgor, ynghyd â manylion y drefn ar gyfer cyfethol.
3. Gohirio sefydlu'r Is-bwyllgor Safonau a'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, hyd nes bydd cadarnhad o'r gofynion statudol.
4. Cadarnhau 22 Gorffennaf fel dyddiad cyfarfod nesaf y CBC a chadarnhau y bydd holl gyfarfodydd y CBC yn cael eu cynnal yn rhithiol yn 2022/23.

---

**1. Sefydlu Strwythur Is-bwyllgorau**

Yn yr adroddiad safonol i Gabinet bob un o'r chwe Chyngor, ac mewn adroddiad tebyg i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) ym mis Rhagfyr 2021, dangoswyd strwythur arfaethedig pwyllgorau'r CBC yn y siart isod.



2. **Trefniadau ar gyfer Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ac Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol**

   **ARGYMHELLIAD**

   Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd **sefydlu Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ac Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol** i gyflawni'r dyletswyddau cychwynnol y rhagnodir i'w cyflawni gan y CBC, h.y. cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol (CDS) a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh).

3. **Cyfansoddiad Is-bwyllgorau'r CBC**

   Rhaid i'r CBC benderfynu ar nifer aelodau'r Is-bwyllgor, gweithdrefnau i benodi aelodau o awdurdodau lleol cyfansoddol ac APCE, cyfethol posibl, a hawliau pleidleisio.

   Y CBC sy'n pennu cyfansoddiad ac aelodaeth ei Is-bwyllgorau a bydd hyn yn cynnwys cyfethol aelodau ar wahân i'r aelodau Cyngor ac APCE craidd i mewn i'r CBC.

   Gall y CBC benderfynu ar aelodaeth is-bwyllgorau drwy gyfeirio at ddeiliaid swyddi penodol neu aelodau o awdurdod, a fydd yn "aelodau cyfetholedig". Gall cyfethol hefyd gynnwys aelodau nad ydynt yn aelodau o lywodraeth leol, neu swyddogion heblaw pan fo aelodaeth yn cael ei rhagnodi gan y Rheoliadau, megis mewn perthynas â'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nid yw cyfethol aelodau nad ydynt yn aelodau o lywodraeth leol yn cael ei argymell ar hyn o bryd, ond gellir adolygu hyn wrth i'r CBC ddatblygu. Gofynnir i'r ddau Is-bwyllgor ystyried cyfethol aelodau heb bleidlais o bosib (e.e. Cynrychiolaeth Trafnidiaeth Cymru a/neu APCE ar yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol), a gwneud argymhellion priodol i'r CBC.

   Gall y cyfethol fod ar y cyfryw delerau ag y mae'r CBC yn penderfynu arnynt. Fodd bynnag, rhaid i'r CBC benderfynu:

   - Y swyddogaethau y caiff yr aelod cyfetholedig weithredu mewn perthynas â hwy fel aelod o'r CBC,
   - Unrhyw swyddogaeth sy'n atodol neu'n gysylltiedig â'r swyddogaeth honno (cwmpas telerau pwerau dirprwyedig yr is-bwyllgor).

   Rhaid i'r aelod cyfetholedig a'r CBC gytuno ar y rhain mewn cytundeb cyfethol. Er bod darpariaeth ar gyfer dirprwyon i'r Arweinyddion ac aelodau APCE, mae natur y cyfethol yn golygu nad oes sgôp amlwg i drefniadau o'r fath mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig. Fodd bynnag, os yw aelodau Cabinet yn cymryd rhan mewn trefniant rhannu swyddi o dan Adran 57 o Ddeddf 2021, yna cânt eu trin fel un aelod at ddibenion y trefniadau hyn.

**ARGYMHELLION ynghylch Cyfansoddiad yr Is-bwyllgorau**

Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd benderfynu -

i. **Y dylai fod gan yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol 7 aelod â phleidlais, un o bob un o'r awdurdodau cyfansoddol** (6 Chyngor ac APCE).
ii. **Y dylai fod gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol 6 aelod â phleidlais, un o bob un o'r 6 Chyngor**.
iii. Y dylai aelodaeth yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol gynnwys yr aelod Cabinet perthnasol o bob Cyngor cyfansoddol sy'n dal y portffolio ar gyfer Polisi Cynllunio, a chynrychiolydd APCE.
iv. Y dylai aelodaeth yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol gynnwys yr aelod Cabinet perthnasol o bob Cyngor cyfansoddol sy'n dal y portffolio ar gyfer Polisi Trafnidiaeth.

**4. Trefniadau ar gyfer Is-bwyllgor (Bwrdd) 'Uchelgais Gogledd Cymru'**

Roedd strwythur pwyllgor arfaethedig y CBC yn y siart uchod yn cynnwys sefydlu, mewn egwyddor, gerbyd cyflawni (is-bwyllgor) ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sef y cyd-bwyllgor presennol a'r corff penderfynu sy'n gyfrifol am y Cynllun Twf). Y bwriad yw cyfyngu ar faint y newid a bodloni'r 'dyletswyddau uniongyrchol' a'r gofynion statudol mewn ffordd gydsyniol.

Mae'r penderfyniad i drosglwyddo swyddogaethau Uchelgais Gogledd Cymru i'r CBC yn fater sydd wedi'i gadw i'r Cynghorau yn 'GA2'. Mae materion yn ymwneud â TAW a benthyca, yn ogystal â sefydlu'r model llywodraethu ar gyfer trosglwyddiad o'r fath y mae angen gweithio drwyddynt er mwyn gallu symud ymlaen. O ganlyniad, yn ymarferol, gohirir y trefniadau ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau i Is-bwyllgor Uchelgais Gogledd Cymru, gyda'r cyd-bwyllgor presennol yn parhau i fod yn gorff gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Twf.

Nid oes amserlen ddibynadwy ar gyfer sicrhau y gall y Cydbwyllgorau Corfforedig adennill TAW yn yr un modd ag awdurdod lleol, nac ar gyfer sicrhau y gall y Cydbwyllgorau sicrhau benthyca ar gyfradd ffafriol gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Nid yw o fewn pwerau Llywodraeth Cymru i ddatrys y materion hyn eu hunain, sy'n cael eu harfer gan asiantaethau sy'n atebol i Lywodraeth y DU (San Steffan) - HMRC ar gyfer TAW, a Swyddfa Rheoli Dyledion y DU (DMO) ynghylch benthyca gan y PWLB. Am y tro, ymddengys yn rhesymol tybio y bydd hyn yn cymryd sawl mis, ond mae'n debygol o ganiatáu i ni gynllunio i drosglwyddo Uchelgais Gogledd Cymru a sefydlu Is-bwyllgor Uchelgais Gogledd Cymru gweithredol o 01/04/2023.

5. **Trefniadau ar gyfer Pwyllgor Safonau**

Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd **oedi** penderfynu ar drefniadau ar gyfer Pwyllgor Safonau hyd nes cyfarfodydd dilynol y CBC, pan fydd Llywodraeth Cymru wedi egluro'r gofynion a'r canllawiau perthnasol, yn dilyn eu hymgynghoriad diweddar ar reoliadau'r CBC. Mae rheoliadau allweddol mewn perthynas â chyfansoddiad Pwyllgorau Safonau y mae angen iddynt fod yn eu lle i roi sicrwydd ar gyfer y broses sefydlu.

6. **Trefniadau ar gyfer Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd **oedi** penderfynu ar drefniadau ar gyfer Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyd nes cyfarfodydd dilynol y CBC, pan fydd Llywodraeth Cymru wedi egluro'r gofynion a'r canllawiau perthnasol, yn dilyn eu hymgynghoriad diweddar ar reoliadau'r CBC. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â nifer a threfniadau recriwtio aelodau lleyg i'r Pwyllgor a'r effaith ddilynol ar nifer yr aelodau etholedig y gellir eu penodi.

7. **Trefniadau ar gyfer Fframwaith Craffu**

Mae'r ail set ddrafft o Reoliadau 2022 yn darparu fframwaith ar gyfer craffu sy'n golygu y bydd y Cydbwyllgor Corfforedig yn destun craffu gan awdurdodau lleol. Bydd o dan ddyletswydd statudol i gydweithredu wrth baratoi ar gyfer adroddiadau ac argymhellion craffu, ac i ymateb yn ffurfiol. Ni fydd ei benderfyniadau'n destun 'galw i mewn'. Mater i'r Cynghorau yw'r trefniadau ar gyfer craffu, a gallai hyn gynnwys creu e.e. Cyd-bwyllgor Craffu. Fodd bynnag, fel gyda threfniadau Uchelgais Gogledd Cymru, mae'n werth creu Protocol er mwyn cyfathrebu gweithgareddau'r CBC i'r trefniadau craffu priodol, er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r gwaith a'r gweithgareddau. Bydd angen datblygu hyn a bydd yn destun adroddiad pellach.

8. **Trefniadau Cyfarfodydd y Dyfodol**

**ARGYMHELLION**

Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd **gadarnhau 22 Gorffennaf fel dyddiad cyfarfod y CBC**, a chytuno ar galendr o ddyddiadau cyfarfodydd wedi hynny yng nghyfarfod 22 Gorffennaf.

Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gadarnhau y bydd **cyfarfodydd y CBC yn cael eu cynnal yn rhithiol** (h.y. ar Zoom, neu debyg) ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/23. Ar ôl ymestyn y trefniadau rhithiol am y tro, gellir adolygu'r rhain yn y dyfodol, ac yna gellir ystyried cyfarfodydd hybrid a lleoliad, os bydd angen.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Swyddog Monitro

Rwyf wedi gweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad hwn ac rwy'n cadarnhau'r cynnwys.

### Swyddog Cyllid Statudol

Rwyf wedi gweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad hwn ac rwy'n cadarnhau'r cynnwys.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd** |
| DYDDIAD: | **17 Mehefin 2022** |
| TESTUN: | **DATGANIAD POLISI TÂL 2022/23** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd** |

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

I fabwysiadu datganiad polisi tâl Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2022/23.

---

## 1. Rhagarweiniad

i) Yn unol â chynnwys Deddf Lleoliaeth 2011, mae'n ddyletswydd statudol ar i bob awdurdod cyhoeddus fabwysiadu datganiad polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn hwn yn berthnasol i Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

ii) Mae angen i Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd fabwysiadu datganiad polisi tâl am y flwyddyn bresennol cyn bod modd ystyried cyflogi unigolion i'r 5 swydd yr argymhellir eu sefydlu yn rhan 6 o'r adroddiad ar "Strwythur Sefydliadol a Staffio", sydd yn eitem ar raglen y cyfarfod hwn.

iii) Yn wyneb y ffaith mai polisi tâl Cyngor Gwynedd sydd wedi'i fabwysiadu ar gyfer cyflogi staff "Uchelgais Gogledd Cymru" a bod adroddiad arall ar raglen y cyfarfod hwn sy'n argymell ymestyn y trefniadau presennol, i Cyngor Gwynedd ddarparu gwasanaethau cefnogol i'r CBC am gyfnod dros-dro, cynigir y datganiad polisi tâl atodol (sy'n seiliedig ar bolisi tâl presennol Cyngor Gwynedd) i Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd i'w fabwysiadu ar gyfer 2022/23.

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd fabwysiadu'r datganiad polisi tâl atodol ar gyfer 2022/23.**

**SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro**

Fel nodir yn yr adroddiad fod gofyn statudol ar y Cyd Bwyllgor Corfforedig i fabwysiadau Datganiad  Polisi Tal. Yn ogystal a hyn gan ei fod yn symud bellach i ystyried cyflogi staff mae'n rhan hefyd o sefydlu y strwythur tal fydd yn cael ei weithredu yn unol a Rheol 10 o Reoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig

Gogledd Cymru 2021. Mae'n anorfod hefyd o ystyried fod y corff yn datblygu ei swyddogaethau fod natur interim i'r Datganiad.

**Swyddog Cyllid Statudol**

Rwy'n fodlon fod y Polisi Tâl a argymhellir ar gyfer ei fabwysiadu gan y CBC yn gyson gyda'r Gyllideb ar gyfer 2022/23 ac yn cyfarch y gofynion statudol.

# Polisi Tâl – 2022 / 23

## 1. CYFLWYNIAD

Yn unol ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011, mae gofyn i Gyd-bwyllgorau Corfforedig baratoi datganiad polisi tâl. Rhaid i'r datganiad hwn gyfleu beth yw polisïau'r Cyd-bwyllgorau ar nifer o faterion sy'n ymwneud â thâl ei weithlu, yn enwedig ei uwch staff (neu 'brif swyddogion') a'r gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf. Rhaid paratoi datganiad polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y y Cyd-bwyllgor Corfforedig llawn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cydnabod pa mor allweddol yw rheoli cydnabyddiaeth ariannol mewn modd teg, cyson a thryloyw ac mae'r penderfyniadau a wneir yn y cyswllt hwn yn greiddiol i sicrhau cyflog cyfartal a chydraddoldeb ar draws y Cyd-bwyllgor.

## 2. POLISI TÂL AR GYFER Y PRIF WEITHREDWR

Bydd y polisi hwn yn diffinio telerau ac amodau gwaith prif weithredwr y Cyd-bwyllgor a'r holl staff cyflogedig eraill, a bydd yn cael ei ddiweddaru wrth fabwysiadu strwythur staffio maes o law.

Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyflogi prif weithredwr o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr Llywodraeth Leol a bydd hynny wedi'i ymgorffori mewn cytundeb gwaith . Mae'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol yn negodi codiad cyflog blynyddol cenedlaethol (DU) ar sail costau byw ar gyfer y grŵp hwn. Mae gan y sawl a gyflogir o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyd-bwyllgor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol.

## 3. CYFLOGAU

Ni fydd y Cyd-bwyllgor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad i'w brif weithredwr. Mae amodau a thelerau gwaith lleol y Cyd-bwyllgor yn berthnasol i'r prif weithredwr, yn yr un modd ag ar gyfer gweddill y staff, oni nodir yn wahanol yn y polisïau unigol.

Bydd y Cyd-Bwyllgor yn cyhoeddi cyflogau yn y polisi hwn ac ar ei wefan wrth sefydlu strwythur staffio.

## 4. SWYDDI O DAN LEFEL PRIF WEITHREDWR

Mae polisi tâl Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer y staff sydd yn cael eu cyflogi o dan lefel y Prif Weithredwr yn seiliedig ar bolisi tâl cyfartal Cyngor Gwynedd .

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi mabwysiadu meini prawf Cynllun Arfarnu Swyddi GLPC fel sail i osod graddfa cyflog ar gyfer pob swydd sydd o dan Amodau Gwaith Gweithwyr Llywodraeth Leol. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi ymrwymo i dalu cyflogau yn unol â deddfwriaeth cyflog cyfartal a'r cytundeb "statws sengl" rhwng cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur cydnabyddedig a luniwyd yn 1997. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi penderfynu defnyddio systemau tâl Cyngor Gwynedd fel rhan o'i bolisi tâl ar gyfer ei staff.

Ni fydd y Cyd-bwyllgor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad ei weithwyr.

Mae'r berthynas rhwng tâl prif weithredwr a'i weithwyr eraill wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyd-bwyllgor i recriwtio a chadw'r gweithwyr addas gorau yn ei swyddi amrywiol, tra'n cynnal y pwyntiau gwahaniaethol a arfarnwyd yn yr arfarniad swyddi.

## 5. TÂL CYCHWYNNOL

Mae'r nifer o hicynnau sydd o fewn pob graddfa yn adlewyrchu'r cyfnod posib o ddatblygiad mewn swydd allai fod yn berthnasol i'r unigolion sydd ar y raddfa honno. Bydd aelodau staff yn cael eu penodi i'r pwynt cyflog o fewn y raddfa sydd yn adlewyrchu'r amser fydd ei angen er mwyn datblygu fel eu bod yn gallu ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn llawn.

Yn arferol, penodir pob gweithiwr i'r pwynt cyflog isaf o fewn y raddfa gyflog briodol. Os yw gweithiwr eisoes yn derbyn tâl uwchben y pwynt cyflog isaf neu os oes tystiolaeth ddigonol i arddangos bod y gweithiwr eisoes yn llawn gymwys i gyflawni nifer o agweddau o'r swydd, gellir penodi ar bwynt cyflog uwch o fewn y raddfa gyflog briodol.

Os oes lle o fewn graddfa'r swydd, bydd pob aelod staff yn gymwys i dderbyn hicyn cyflog blynyddol ar y cyntaf o Ebrill, ar yr amod eu bod wedi'u penodi i'w swydd bresennol am fwy na chwe mis cyn y dyddiad hwnnw.

## 6. COSTAU AIL-LEOLI

Mewn sefyllfa pan ei bod yn angenrheidiol i weithiwr ail-leoli er mwyn ymgymryd â swydd, gall y Cyd-bwyllgor, o dan amgylchiadau arbennig, gyfrannu tuag at ad-daliad costau ail-leoli. Mae'r cynllun yn berthnasol i weithwyr a benodir o ganlyniad i hysbyseb neu'n dilyn ad-drefnu mewnol lle bydd rhaid iddynt symud tŷ.

Rhaid i gartref presennol y gweithiwr fod fwy na 20 milltir o'r ganolfan weinyddol cyn y gellir ystyried cais i ad-dalu costau.

O dan yr amgylchiadau hyn, telir cost symud dodrefn ac eiddo yn llawn, yn ddarostyngedig i dderbyn yr isaf o dri dyfynbris ynghyd â chost lawn storio dodrefn hyd at dri mis. Gellir gwneud cyfraniad hyd at £3,270 ar gyfer costau cyfreithiol, ffioedd arwerthwr tai, costau carpedi a llenni a mân gostau symud eraill yn amodol ar ddangos derbynebau perthnasol.

## 7. YCHWANEGIAD Y FARCHNAD

Mae graddfa cyflog pob swydd wedi ei seilio ar gynllun arfarnu swyddi Cyngor Gwynedd. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi mabwysiadu'r cynllun hwn ar gyfer pennu cyflogau i'w swyddi (ar wahân i swyddi y prif weithredwr). Golyga hyn fod y system o dalu aelodau staff wedi ei seilio ar gydraddoldeb yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cyflog Cyfartal 1970 ac yn sicrhau cysondeb o ran penderfyniadau sydd yn ymwneud â thâl. O ganlyniad fe allai unrhyw wyriad o'r system hon greu risg sydd angen ei reoleiddio'n gadarn. Mae'n rhaid bod rhesymau pendant a chlir os am gyfiawnhau unrhyw wyriad o'r trefniant hwn.

Fodd bynnag, fe allai sefyllfa godi pan fo pwysau'r farchnad yn creu problemau recriwtio a/neu gadw staff yng nghyswllt swydd benodol. Gall y Cyd-bwyllgormewn rhai achosion eithriadol, ac er mwyn denu a/neu gadw unigolyn i swydd benodol, gynnig taliad ychwanegol i'r raddfa gyflog sylfaenol sydd wedi ei fabwysiadu.

Yn y cyswllt hwn dim ond pan fydd tystiolaeth ddogfennol ddigonol o fethiant i recriwtio a/neu gadw aelod staff y bydd ychwanegiad y farchnad yn cael ei ddefnyddio. Nid yw ychwanegiad y farchnad yn ychwanegiad parhaol i gyflog swydd. Os yw'r amgylchiadau sydd yn berthnasol i'r ychwanegiad yn newid, neu os yw aelod staff yn cael ei drosglwyddo gan y Cyd-bwyllgor i swydd arall nad yw'n denu

ychwanegiad y farchnad, yna bydd hawl yr unigolyn hwnnw/honno i'r taliad yn peidio, a bydd yr atodiad yn cael ei atal yn unol â'r rhybudd priodol.

## 8. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL (YMGYMRYD Â CHYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL)

Gellir caniatáu taliad ychwanegol pan fo aelod staff yn cytuno i gais i ymgymryd â chyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau sydd y tu hwnt i ddyletswyddau a chyfrifoldebau arferol ei swydd ar sail dros dro. Mae'n rhaid i'r gyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau uwch fod yn sylweddol, yn cael eu harfarnu ar lefel cyflog uwch a thros gyfnod estynedig cyn y gellir cynnig cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol dros-dro.

## 9. FFIOEDD PROFFESIYNOL

Ad-delir un ffi'r flwyddyn i Swyddogion ar gyfer aelodaeth o gorff cydnabyddedig sy'n berthnasol i'w swyddogaeth broffesiynol a phan fo'r aelodaeth hwnnw yn ofyniad gan y Cyngor.

## 10. DEFNYDDWYR CAR

Dynodir pob gweithiwr fel defnyddiwr car achlysurol a thelir ad-daliadau am deithiau busnes ar sail graddfeydd Swyddfa Cyllid y Wlad.

## 11. TREULIAU CYNHALIAETH

Telir ad-daliadau cynhaliaeth, ar gyflwyniad derbynneb, os yw aelod staff yn teithio tu allan i'r Sir ar gyfer brecwast, cinio, te a swper, a hynny hyd at yr uchafswm ar gyfer lwfansau cynhaliaeth. Ar gyfer y staff hynny sydd â'u gwaith yn golygu eu bod yn teithio ar draws mwy nag un Sir e.e. Gwynedd a Môn, diffinnir "y tu allan i'r Sir" fel y tu allan i'r ardal waith arferol.

## 12. GWEITHIO ORIAU YCHWANEGOL

Telir gweithwyr, a gyflogir ar bwynt 22 neu is, ar sail unwaith a hanner o'r cyflog sylfaenol yr awr pan yn gweithio mwy na 37 awr mewn wythnos (trefniadau amgen ar gyfer gweithwyr gyda phatrymau gwaith pan fo'r oriau a weithir ar sail pythefnos/misol neu flynyddol). Caniateir tâl sylfaenol neu amser yn ei le i staff a gyflogir ar bwynt uwch na 22 pan eu bod yn gweithio mwy na 37 awr, neu os yw'r prif weithredwr wedi cymeradwyo'r gwaith ychwanegol ymlaen llaw yna gellir awdurdodi tâl ar sail amser a hanner.

## 13. GWEITHIO ORIAU ANGHYMDEITHASOL

Telir cyflog ar y raddfa sylfaenol am waith, oddi fewn i'r 37 awr, a gyflawnir ar y penwythnos. Telir tâl chwyddedig o dâl sylfaenol a thraean rhan o'r cyflog am waith a gyflawnir rhwng 10 y nos a 6 y bore i weithwyr sy'n gweithio yn ystod yr oriau hynny.

Telir cyflog yn unol â'r cytundeb cenedlaethol ar gyfer gwaith a gyflawnir ar wyliau banc a gwyliau statudol ychwanegol.

## 14. LWFANS CYMORTH CYNTAF

Telir lwfans blynyddol i weithwyr sydd yn gweithredu fel Cymorthyddion Cyntaf dynodedig.

## 15. DISWYDDO AC YMDDEOL

Mae cynlluniau diswyddo ac ymddeol y Cyd-bwyllgor yn cael eu gweithredu'n gyfartal a theg i bob aelod staff, waeth beth fo'u graddfa cyflog, eu hoedran neu eu rhyw ac fe'i gweithredir yn unol â rheoliadau'r cynlluniau pensiwn perthnasol. Nid oes unrhyw eithriadau i brif swyddogion.

## 16. CYNLLUN COLLED ARIANNOL

Diffinnir colled ariannol fel colled o ganlyniad i newid mewn graddfa cyflog ac amodau a thelerau cytundebol. Mae'r Cyd-bwyllgor yn darparu cymorth ariannol i staff sy'n wynebu sefyllfa o golled ariannol (yn sgil ail-strwythuro neu ail-ddyrannu cyfrifoldebau) am gyfnod o ddwy flynedd oddi ar ddyddiad gweithredol y newid i'w pecyn cyflogaeth, gyda 100% o warchodaeth yn y flwyddyn gyntaf a 50% yn yr ail. Bydd y cymorth ariannol hwnnw yn dod i ben ar ôl dwy flynedd oni bo'r aelod staff unigol yn y cyfamser wedi'i benodi i swydd arall ple nad yw o/hi yn wynebu'r golled ariannol.

## 17. AIL-GYFLOGI

Bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried pob ymgeisydd yn ôl ei r(h)inweddau ei hun a bydd yn penodi gyda'r bwriad o gyflawni'r effeithlonrwydd gorau ar gyfer y gwasanaeth a'r gwerth gorau ar gyfer ei drethdalwyr. Byddai'r fath benodiad, os byddai'n cael ei wneud, yn destun unrhyw leihad a nodir yn y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Yn unol â deddfwriaeth trethiant, rhaid i reolwyr sicrhau ym mhob achos fod unrhyw drefniant i dalu unigolyn am waith trwy 'gytundeb o wasanaeth' wedi bod yn destun prawf statws cyflogaeth fel sy'n ymddangos ar wefan CThEM, a cynhelir y prawf yma yn hollol wrthrychol.

## 18. PENODI PRIF SWYDDOG NEWYDD (CYFLOG O £100,000 A THROSODD)

Bydd y Cyd-bwyllgor llawn yn cymeradwyo unrhyw newid i becyn cyflog swydd o'r fath cyn yr eir ati i recriwtio. Byddai angen cyfeirio'r mater at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol hefyd, yn unol â rhan 3 o'r polisi hwn.

Hysbysebir yn allanol ar gyfer llenwi swydd o'r fath.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC)** |
| DYDDIAD: | **17 Mehefin 2022** |
| PWNC:* | **STRWYTHUR Y SEFYDLIAD A STAFFIO** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards, Swyddog Arweiniol Prosiect y CBC** |

---

**PENDERFYNIADAU A GEISIR:**

**Ail-benodi Dafydd Gibbard yn Brif Weithredwr y CBC, ar sail dros dro hyd nes caiff y swydd ei hadolygu eto gan y CBC.**

**Penodi -**

**a) Dewi A Morgan yn Brif Swyddog Cyllid (a.151) y CBC, ac**
**b) Iwan G Evans yn Swyddog Monitro a Swyddog Priodol y CBC.**

**Cymeradwyo'r trefniadau sy'n bodoli i Gyngor Gwynedd ddarparu gwasanaethau cefnogol i'r CBC, o leiaf hyd at ddyddiad trosglwyddo'r Bwrdd Uchelgais i'r CBC, neu pan fydd Partneriaid i "GA2" y Bwrdd Uchelgais yn cytuno i fodel amgen.**

**Bod y CBC yn mabwysiadu Amodau a Thelerau cyflogaeth Cyngor Gwynedd i ddechrau, yn weithredol o ddyddiad yr adroddiad hwn fel ei delerau ac amodau cyflogaeth i'r staff.**

**Cymeradwyo sefydlu'r tair swydd Cynllunio Strategol a'r ddwy swydd Trafnidiaeth Ranbarthol yn barhaol fel y nodir yn yr adroddiad.**

**Y dirprwyir y gwaith o baratoi'r disgrifiadau swyddi, y manylebau personol, hysbysebu a phenodi i'r swyddi i'r Prif Weithredwr dros dro yn unol â'r adroddiad a'r gyllideb.**

---

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag (ail)benodi swyddogion statudol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC), darparu gwasanaethau cefnogol craidd a'r trefniadau i gyflogi staff i ymgymryd â'r dyletswyddau Cynllunio a Thrafnidiaeth.

## 2. Datganiad Polisi Tâl ac Amodau Cyflogaeth

Yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru, mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn "awdurdodau perthnasol y mae'n rhaid iddynt baratoi datganiad polisi tâl ar gyfer y flwyddyn ariannol", yn bennaf yn nodi tâl eu prif swyddogion. Cyflwynir datganiad polisi tâl ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd dan eitem arall ar raglen y cyfarfod hwn.

Fel cyflogwr ynddo'i hun, bydd angen i'r CBC fabwysiadu ei amodau a thelerau ei hun ar gyfer cyflogi staff. Er mwyn sicrhau parhad, cynigiwyd y dylai'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer y CBC adlewyrchu strwythurau cyflog a graddio Cyngor Gwynedd wrth aros am ddatrysiad ar sefyllfa'r Bwrdd Uchelgais. Argymhellir felly bod y CBC yn mabwysiadu amodau a thelerau cyflogaeth cyfatebol staff wrth aros am unrhyw adolygiad. Fodd bynnag, fel cyflogwr, bydd y CBC yn gyfrifol am gytuno ar unrhyw adolygiadau ac ymgynghoriadau dilynol a allai gael eu cynnal yn y dyfodol.

## 3. Arfarniad o Opsiynau ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol y CBC

Yn ei gyfarfod cyntaf ar 14 Ionawr 2022, gwnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd drefniadau priodol gan gynnwys penodi Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd, i rôl Prif Swyddog Gweithredol y CBC ar sail dros dro, yn weithredol o leiaf hyd nes i'r trefniadau gael eu hadolygu ym mis Mehefin 2022.

Y gobaith erbyn hynny oedd y byddem yn gliriach am ein gallu i drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais i'r CBC ac y byddai modd ystyried oblygiadau hynny wrth benodi Prif Weithredwr parhaol. Fodd bynnag, mae’r cymhlethdodau sy’n parhau o safbwynt gallu CBC i adennill TAW a’r gallu i fenthyca drwy’r PWLB yn golygu nad oes modd gwneud penderfyniad terfynol i symud ymlaen gyda’r trosglwyddiad ar hyn o bryd.

Sgil effaith hynny yw cyfyngu, ar hyn o bryd, ar rai o’r opsiynau fyddai ar gael i’r CBC i’w hystyried o ran cyflawni’r swyddogaeth Prif Weithredwr ac felly argymhellir parhau gyda’r trefniant presennol gyda Phrif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn parhau i arwain y gwaith o sefydlu’r CBC am y tro.

Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn darparu rolau Prif Swyddog Cyllid (a151) y CBC a Swyddog Monitro'r CBC. Mae hyn, wrth gwrs, yn sicrhau cysondeb gyda threfniadau'r Bwrdd Uchelgais ac mae dadl glir dros barhau fel ar gyfer y rôl a151 a'r Swyddog Monitro (gan ei bod yn debygol y bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn trosglwyddo i CBC y Gogledd, o bosibl ar 01/04/2023).

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i Gyd-bwyllgor Gweithredol y Gogledd ail-benodi Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr Gwynedd) yn Brif Weithredwr y CBC, ar sail dros dro hyd nes caiff y swydd ei hadolygu eto.**

Gan gydnabod goblygiadau datblygiadau'r CBC ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru, gwahoddir eu Cyfarwyddwr Portffolio yn ffurfiol o hyn ymlaen i fynychu cyfarfodydd y CBC.

## 4. Adolygu / ymestyn rolau Swyddogion Statudol y CBC

Yn ei gyfarfod cyntaf ar 14/01/22, gwnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd drefniadau priodol gan gynnwys penodi ei swyddogion statudol, yn weithredol o 14 Ionawr 2022 o leiaf hyd nes caiff y trefniadau eu hadolygu ym mis Mehefin 2022:

a) Prif Weithredwr - Dafydd Gibbard
b) Prif Swyddog Cyllid ('Swyddog Adran 151') - Dewi Morgan
c) Swyddog Monitro a Swyddog Priodol - Iwan Evans
(gyda phob un yn ddeilydd y swydd berthnasol yng Nghyngor Gwynedd)

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r CBC benodi tri swyddog statudol, sef Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro. Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn caniatáu hyblygrwydd o ran sut gall y CBC gyflogi staff h.y. gellir eu cyflogi'n uniongyrchol, neu gall y CBC wneud trefniadau gydag awdurdodau cyfansoddol.

Ym mis Ionawr 2022, nodwyd bod Cyngor Gwynedd eisoes wedi darparu Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, y gallai ei swyddogaethau drosglwyddo i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ystod 2022/23. Ychwanegwyd bod Cyngor Gwynedd eisoes yn darparu Swyddog Arweiniol Prosiect y CBC hefyd. Nodwyd y dylai'r swyddogion statudol gael eu darparu gan Gyngor Gwynedd tra bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei sefydlu, ac y gellir diwygio'r trefniadau dros dro hyn wedi hynny.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell penodi i'r 'Swyddog Adran 151' a'r 'Swyddog Monitro' yn fwy parhaol, o leiaf hyd nes y caiff 'Uchelgais Gogledd Cymru' (y Bwrdd Uchelgais) ei drosglwyddo, o 01/04/2023 yn ôl pob tebyg.

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ail-benodi:**
**a) Dewi Aeron Morgan yn Brif Swyddog Cyllid y CBC**
**b) Iwan G Evans yn Swyddog Monitro a Swyddog Priodol y CBC**
**(gyda'r naill a'r llall yn ddeilydd y swydd berthnasol yng Nghyngor Gwynedd)**

## 5. Cadarnhau bod Cyngor Gwynedd yn darparu Gwasanaethau Cefnogol

Mae angen gwasanaethau cefnogol i hwyluso gwaith y CBC, ac roedd y gyllideb ar gyfer 2022/23 a gymeradwywyd gan y CBC ar 28/01/2022 yn cynnwys amcangyfrifon cost ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau, sef cefnogaeth gwasanaethau Cyllid (gan gynnwys y 'Swyddog Adran 151', cyfrifeg, yswiriant ac ati), gwasanaethau Cyfreithiol (gan gynnwys y Swyddog Monitro), gwasanaethau Cefnogaeth Gorfforaethol (pwyllgorau, cyfieithu ac adnoddau dynol) a gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth (offer, cefnogaeth a thrwyddedau).

Mae rhai o'r gwasanaethau cefnogol hyn wedi'u cysylltu'n anorfod â'r rolau Adran 151 a Swyddog Monitro, ac mae'r ystod o wasanaethau y cyfeirir atynt uchod yn cael eu darparu gan Gyngor Gwynedd, sydd wedi bod yn agor cyfrifon banc, yn sefydlu cyfriflyfr ariannol, yn trefnu yswiriant, yn delio â gwahanol reoleiddwyr gan gynnwys Archwilio Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, ac yn delio ag ymholiadau ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru. Mae gwasanaethau cefnogol Cyngor Gwynedd hefyd yn hwyluso'r cyfarfod hwn, wrth gwrs.

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gymeradwyo'r trefniadau sy'n bodoli i Gyngor Gwynedd ddarparu'r ystod hon o wasanaethau cefnogol, o leiaf tan ar ôl i'r Bwrdd Uchelgais gael ei drosglwyddo.**

Yn y tymor canolig, pan ddaw'r gofynion yn gliriach, gellir llunio cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer cyflenwi a chost y gwasanaethau cefnogol hyn. Yn y cyfamser, caiff y gost ei hadrodd i'r CBC a'i rheoli o fewn y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2022/23.

## 6. Trefniadau ar gyfer Staff Cynllunio a Thrafnidiaeth

Rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ystyried trefniadau ar gyfer comisiynu'r dyletswyddau Cynllunio a Thrafnidiaeth y rhagnodir i'w cyflawni gan y CBC – h.y. paratoi, datblygu, cynhyrchu, monitro, adolygu a diwygio Cynllun Datblygu Strategol (CDS) a Chynllun Trafnidiaeth Ranbarthol (CTR).

Er bod y Cyd-bwyllgor wedi cytuno ar ddull isafswm cyllideb, mae darpariaeth gyllidebol benodol ar gyfer cyflogi 5 aelod o staff. Mae amcangyfrifon 2022/23 yn cynnwys cost ran-flwyddyn tair swydd Cynllunio Strategol a dwy swydd Trafnidiaeth Ranbarthol i gyflawni'r dyletswyddau CDS a CTR cychwynnol a ragnodir i'w cyflawni gan y CBC.

Bydd y strwythur yn cynnwys dau reolwr / arweinydd tîm a fydd yn atebol i'r Prif Weithredwr Dros Dro, a thair swydd arall sy'n atebol i'r ddau reolwr / arweinydd tîm.

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gymeradwyo sefydlu'r tair swydd Cynllunio Strategol a'r ddwy swydd Trafnidiaeth Ranbarthol yn barhaol.**

Bydd swyddogion yn paratoi disgrifiadau swydd a manylebau personol priodol ar gyfer y swyddi uchod, mewn ymgynghoriad â grwpiau proffesiynol perthnasol. Bydd y gwaith o sefydlu'r 5 swydd CBC a'r recriwtio dilynol yn cael ei ddatblygu o fewn fframwaith telerau staffio Cyngor Gwynedd, er mwyn sicrhau cysondeb â'r rhai a gyflogir gan Uchelgais Gogledd Cymru.

Bydd 'Cynllun Dirprwyo' i alluogi i is-bwyllgorau a swyddogion wneud penderfyniadau hefyd yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'w gymeradwyo mewn cyfarfod dilynol o'r CBC.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Swyddog Monitro

Rwyf wedi gweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad hwn ac rwy'n cadarnhau'r cynnwys.

### Swyddog Cyllid Statudol

Rwyf wedi gweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad hwn ac rwy'n cadarnhau'r cynnwys.